
NASUWT CYMRU

Undeb yr Athrawon

The Teachers' Union

# Canllaw ar Wneud Asesiad Risg o Ymddygiad Treisgar neu Gamdriniol

## Canllaw i arweinwyr a rheolwyr yng Nghymru



health&safety at work

## Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw:

- esbonio'r dyletswyddau cyfreithiol ar gyflogwyr a rheolwyr ym maes addysg mewn perthynas â thrais ac ymddygiad camdriniol yn erbyn aelodau o staff;
- amlinellu'r gweithdrefnau y dylai ysgolion a cholegau eu defnyddio i ymdrin â'r broblem; a
- chynghori arweinwyr ysgol/coleg am y camau gweithredu y dylent eu cymryd.

Er bod y mwyafrif o ysgolion a cholegau'n parhau'n weddol ddiogel a sicr, mae bywydau gwaith athrawon, penaethiaid ysgol/coleg ac aelodau eraill o'r gweithlu addysg yn cael eu niweidio gan leiafswm o ddisgyblion sy'n herio awdurdod ac yn ymddwyn yn aflonyddol, gan ddefnyddio ymddygiad bygythiol, iaith ddifrïol ac weithiau drais corfforol. Mae gan y cyflogwr a'r cyflogeion ddiddordeb mewn sicrhau bod eu hysgol/coleg yn le diogel.

## Effaith Ymddygiad Gwael gan Ddisgyblion

**Mae gormod o athrawon wedi gweld eu gyrfaoedd yn dod i ben yn rhy fuan a'u bywydau'n cael eu handwyo oherwydd digwyddiadau treisgar yn y gwaith, sydd wedi achosi anafiadau corfforol a seicolegol tymor hir sylweddol,** yn cynnwys straen, gorbryder, iselder, anhwylder straen ôl-drawmatig ac agoraffobia. Mae disgyblion treisgar neu aflonyddgar yn cymryd llawer iawn o amser y staff a'r rheolwyr, gan gynyddu'r straen a'r llwyth gwaith a chan dynnu sylw athrawon oddi wrth eu ffocws ar ddisgyblion eraill. Gall digwyddiadau treisgar gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd gwaith yn yr ysgol/coleg i'r staff a'r disgyblion fel ei gilydd, a gall beri niwed i enw da'r ysgol/coleg, gan arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion ac anawsterau gyda phenodi a chadw staff. Efallai y bydd costau ychwanegol i'w talu oherwydd cynnydd mewn absenoldeb salwch, premiymau yswiriant uwch a thaliadau iawndal.

## Pwysigrwydd Asesu Risgiau yn Effeithiol

**Dylid gwneud asesiadau risg digonol o ddisgyblion sy'n dangos lefelau uchel cyson o ymddygiad ymosodol neu dreisgar yn yr ysgol/coleg, a dylid rhannu manylion yr asesiadau risg hynny gydag aelodau perthnasol o staff**, yn arbennig pan fydd disgyblion yn symud ysgol/coleg. Mae disgyblion a staff dan risg os nad yw'r cyflogwr yn: gwneud asesiad risg penodol, gweithredu mesurau rheoli addas, rhannu gwybodaeth ddigonol gyda staff am ddisgyblion treisgar ac aflonyddgar, nac yn defnyddio'r sancsiynau sydd ar gael pan fo angen.

Dylai rhai ysgolion a cholegau ystyried yr ystod lawn o sancsiynau sydd ar gael i ymdrin ag ymddygiad annerbyniol gan ddisgyblion, gan gynnwys ymdrin â cham-drin llafar neu aflonyddu lefel isel. Bydd polisïau ymddygiad sy'n cynnwys gweithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu risgiau'n helpu i greu amodau lle gall athrawon addysgu ac y gall disgyblion ddysgu'n effeithiol.

## Tystiolaeth a Data o Waith Ymchwil

Mae gwaith ymchwil helaeth NASUWT, sy'n cynnwys arolygon blynyddol o athrawon, yn dangos yn gyson bod trais a cham-drin llafar yn erbyn athrawon yn llawer rhy gyffredin a bod ymddygiad disgyblion yn un o brif achosion llwyth gwaith a straen gormodol.

**Yn 2018, canfu arolwg Cwestiwn Mawr yr Undeb o fwy na 7,000 o athrawon drwy gydol y DU bod hyn wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf: mae mwy nag un ymhob deg o'r athrawon (11%) wedi dioddef ymosodiad corfforol gan ddisgybl, roedd un ymhob saith (14%) wedi cael eu bygwth gydag ymosodiad corfforol gan ddisgybl, ac roedd mwy na hanner yr athrawon (51%) wedi dioddef cam-drin llafar gan ddisgybl.**

**Soniodd bron i chwarter yr athrawon (24%) eu bod wedi dioddef cam-drin llafar gan riant neu ofalwr yn ystod y 12 mis diwethaf.**

## Safiad NASUWT

**Mae NASUWT yn cydnabod na all disgyblion ddysgu ac na all athrawon addysgu mewn awyrgylch o drais ac aflonyddu. Mae'r Undeb yn gweithio i amddiffyn diogelwch a lles ei aelodau.**

Gyda chefnogaeth ei aelodau, nid yw NASUWT yn meddwl ddwywaith cyn pleidleisio i 'wrthod addysgu' disgyblion penodol dan amgylchiadau lle mae ysgolion/colegau a Phaneli Apêl Annibynnol heb roi ystyriaeth ddyladwy i iechyd a diogelwch ei aelodau. Ni ddylid disgwyl i unrhyw athro oddef trais yn y gwaith.

Mae gan bob athro ac athrawes yr hawl i gael amgylchedd gwaith iach a diogel.

## Cyfrifoldebau'r Cyflogwyr a'r Cyrff Llywodraethu

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, mae dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr "i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu cyflogeion a phobl eraill, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol".

Hefyd, mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyflogwyr, drwy'r prosesau **asesu risgiau,** i **archwilio peryglon yn y gweithle, adnabod y rheiny sydd dan risg, a chymryd camau i reoli'r risgiau hynny.**

O dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR) mae gofyn i gyflogwyr ym maes addysg gofnodi unrhyw achos o drais. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bob ysgol a choleg gael trefn adrodd, y bydd gan bennaeth yr ysgol/coleg gyfrifoldeb amdano o ddydd i ddydd. **Dylai arweinwyr ysgol/coleg a rheolwyr addysg gymryd camau priodol i sicrhau bod staff yn rhoi adroddiad am unrhyw achos o drais neu gam-drin, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau sefydledig.** Mae adroddiadau am ddigwyddiadau'n rhoi manylion hanfodol i hysbysu'r broses asesu risgiau. Gellir rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) am unrhyw weithgareddau o drais na chydsyniwyd iddo i berson yn y gwaith sy'n achosi eu marwolaeth, anaf mawr neu sy'n eu hanalluogi am fwy na saith diwrnod. Mae anafiadau penodol y gellir adrodd amdanynt yn cynnwys:

- torri esgyrn, heblaw bysedd, bodiau a bodiau traed;
- torri aelodau'r corff i ffwrdd;
- unrhyw anaf sy'n debygol o arwain at golli golwg neu ostyngiad mewn golwg yn barhaol;
- unrhyw anaf gwasgu i'r pen neu i'r torso sy'n achosi niwed i'r ymennydd neu'r organau mewnol;
- llosgiadau difrifol (yn cynnwys sgaldiadau), sydd:
  - yn gorchuddio mwy na 10% o'r corff; neu
  - yn achosi niwed sylweddol i'r llygaid, system resbiradol neu organau hanfodol eraill;
- unrhyw flingo'r pen sydd angen triniaeth ysbyty; ac
- unrhyw golli ymwybyddiaeth a achosir gan anaf i'r pen neu fygu.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â pha ddigwyddiadau y gellir adrodd amdanynt o dan reoliadau RIDDOR, ewch i www.hse.gov.uk/riddor.

Mae'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch[1] hefyd yn gofyn bod cyflogwyr yn **ymgynghori ac yn cydweithredu gyda Chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch**, gan gynnwys ar reoli risgiau i iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Er bod modd dirprwyo tasgau iechyd a diogelwch i reolwyr llinell a chyflogeion sy'n gymwys i'w gweithredu nhw, mae'r cyfrifoldeb ei hun yn

[1] *Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996.*

parhau gyda'r cyflogwr. Dylai'r pwyllgor diogelwch **adolygu polisïau perthnasol yr ysgol ac adroddiadau ystadegol perthnasol** (heb enwi unigolion) yn rheolaidd ac **archwilio ac ymateb i unrhyw batrymau o drais neu ymddygiad camdriniol.** Mae'r pwyllgorau diogelwch yn y gweithle, a gynullwyd yn ystod y diwrnod gwaith, yn fforwm effeithiol ar gyfer ymgynghoriad â chynrychiolwyr undebau llafur.

## Cyfrifoldebau Penaethiaid Ysgol/Coleg

Mae'r rheiny sydd ag unrhyw faint o 'reolaeth ar y safle' – h.y. pennaeth yr ysgol/coleg, neu'r cyrff llywodraethu mewn ysgolion/colegau lle mae'r awdurdod lleol yn gyflogwr – yn gyfrifol hefyd am reoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd. Gallai pennaeth yr ysgol/coleg ddirprwyo'r brif rôl ar weithredu iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd a rheolaeth y polisi i reolwr uwch enwebedig, ond byddent yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol. Mae'n hanfodol bod y pennaeth a bwrdd/corff llywodraethu'r ysgol/coleg yn cysylltu'n agos ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles.

Mae pennaeth yr ysgol/coleg yn gyfrifol hefyd am y canlynol:

a. sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu gwneud o'r risg y bydd y cyflogeion yn agored i drais ac ymosodedd a bod mesurau rheoli priodol yn cael eu gweithredu;

b. gwneud trefniadau priodol i ddigwyddiadau gael eu hadrodd, eu cofnodi a'u hymchwilio;

c. monitro'n rheolaidd lefel a natur gyffredinol unrhyw achosion o drais neu gam-drin ac ymateb yr ysgol/coleg iddynt;

d. adolygu pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau rheoli ymddygiad a'r polisi iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli ac ymatebion i ddigwyddiadau;

e. darparu hyfforddiant priodol i gyflogeion a gwirfoddolwyr;

f. cynhyrchu adroddiad monitro a gwerthuso blynyddol i'r bwrdd/corff llywodraethu;

g. ymgynghori â gweithwyr a'r undebau llafur yn y gweithle.

## Diffiniad o'r term 'Trais'

Mae HSE yn diffinio trais sy'n gysylltiedig â gwaith fel yma:

***'unrhyw sefyllfa lle mae unigolyn yn dioddef cam-drin, bygythiad neu ymosodiad mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'u gwaith'.***

Mae amgylchiadau o'r fath yn cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â gwaith, p'un a ydyw ar safle'r ysgol/coleg neu oddi ar y safle (megis

ymweliadau addysgol). Gallai disgybl, cydweithiwr neu aelod o'r cyhoedd fod yn gyfrifol. Mae grym corfforol, cam-drin llafar neu fygythiadau, yn cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn, a niwed i eiddo, oll yn fathau o drais.

Dylai ysgolion a cholegau fod â strategaethau i ystyried, atal ac ymdrin â thrais sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys cam-drin staff yn llafar neu gorfforol.

## Asesiad Risg

**Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol, drwy'r prosesau asesu risgiau, i archwilio peryglon yn y gweithle, adnabod y rheiny sydd dan risg, a chymryd camau i reoli'r risgiau hynny.**

Mae gan benaethiaid ysgol/coleg ddyletswydd i reoli a gostwng y risgiau i lefel 'mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol'.

Gellir addasu asesiadau risg i ddisgyblion neu oedolion unigol ac mae'n broses angenrheidiol i'w dilyn mewn sefyllfaoedd lle nad yw gweithredu polisi rheoli ymddygiad yr ysgol/coleg wedi peri gwell ymddygiad, ac mae ymddygiad un o'r disgyblion yn parhau i achosi risg dangosadwy a pharhaus i staff a disgyblion eraill. Mae disgyblion sydd â hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn cynrychioli risg rhagweladwy a dangosadwy.

Mae gwneud asesiadau risg yn sail hanfodol i reoli risgiau yn y gweithle. Mae asesiad risg yn adnabod y peryglon, er enghraifft, nodweddion o ymddygiad treisgar neu ymosodol un o'r disgyblion megis cicio neu frathu, a'r bobl a allai gael eu niweidio, ac mae'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn atal niwed o'r fath.

Mae'r dull pum cam i wneud asesiad risg a argymhellwyd gan HSE yn hanfodol i reoli'r holl sefyllfaoedd o risg. Gallent gael eu defnyddio gyda phroblemau ymddygiad ymhob lleoliad addysgol, gan gynnwys sefydliadau arbenigol, lle gellir addysgu pobl ifanc eithriadol dreisgar.

Mae pro fforma NASUWT, ***Ffurflen asesiad risg i'w chwblhau gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth a lles disgyblion***, wedi'i chynnwys ar ddiwedd y canllaw hwn a gellir ei defnyddio i gynhyrchu asesiad risg o ymddygiad treisgar neu gamdriniol i ddisgyblion penodol sydd wedi'u pennu fel rhai sy'n cyflwyno risg posib.

**Dylai'r rheiny sy'n gwneud asesiadau risg fod wedi derbyn hyfforddiant addas a digonol a'u bod yn gymwys i wneud hynny.** Dylai staff sy'n gwneud asesiadau risg o ddisgyblion:

- fod yn ymwybodol o'r fframweithiau rheoliadol a'r polisïau'r ysgol/coleg, yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb a gwahaniaethu, diogelwch y safle, atal disgyblion a diogelu data;

- yn ystod y broses asesu risgiau, ymgynghori â chynrychiolwyr diogelwch yr undebau llafur a'r staff sy'n ymwneud â darparu addysg a gofal i'r disgybl;
- ystyried unrhyw gontractau/gorchmynion rhianta a chysylltu â rhieni/gofalwyr, fel y bo'n briodol (er nad oes gofyniad i sicrhau caniatâd rhiant/gofalwr i wneud asesiad risg o ddisgybl, gallai fod yn ddefnyddiol trafod y pethau cyffredin sy'n sbarduno problemau ymddygiad a strategaethau llwyddiannus i atal ac ymdrin ag ymddygiad amhriodol); a
- chysylltu gydag asiantaethau allanol perthnasol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), asiantaethau cwnsela cyffuriau, swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysg, y gwasanaethau cymdeithasol / amddiffyn plant, yr heddlu lleol – Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu / Timau Troseddau Ieuenctid a'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Mae proses asesu risgiau HSE, y dylid ei dilyn wrth wneud asesiad risg, yn cynnwys y camau canlynol:

**Cam 1: Canfod y peryglon**

Y cam cyntaf yn eich asesiad risg yw canfod y peryglon – sef pethau sy'n gallu peri niwed i bobl yn eich ysgol/coleg, er enghraifft, nodweddion o ymddygiad treisgar neu ymosodol un o'r disgyblion megis bygwth trais, cicio, brathu neu gario arfau. Casglwch wybodaeth a thystiolaeth am achosion blaenorol o ymddygiad treisgar neu aflonyddgar sy'n ymwneud â'r disgybl. Mewn perthynas â thrais, mae'n ddefnyddiol meddwl yn nhermau ffactorau risg ar yr un pryd.

**Perygl** yw rhywbeth sy'n gallu peri niwed. Mewn perthynas â thrais yn y gwaith, bygythiadau neu frawychu, a cham-drin llafar, ystyriwch yr unigolyn a allai o bosib achosi trais, ymosodedd neu gam-drin a'r sefyllfaoedd a allai godi yn yr ysgol neu'r coleg.

**Ffactorau risg** yw agweddau o'r gwaith sy'n gwneud trais yn fwy tebygol. Gall y ffactorau cyffredin sy'n gallu arwain at ymddygiad treisgar neu ymosodol a chreu risg gynnwys:

- hanes o drais neu ymosodedd neu broblemau iechyd meddwl (weithiau gall bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gyflwyno risg o drais, ond dydy hynny ddim yn beth cyffredin);
- bywyd cartref camweithredol (pwysau allanol, gangiau);

- diffyg amynedd (oherwydd gorfodiad i aros, diffyg gwybodaeth neu ddiffyg her);
- rhwystredigaeth (am nad yw wedi deall gwers, neu oherwydd anawsterau dysgu neu ddiffyg her);
- gorbryder (anawsterau dysgu, yn poeni am brawf/arholiad, pwysau allanol, prinder bwyd);
- dicter (anawsterau dysgu, diffyg hawliau, teimlad nad yw'n cael digon o sylw);
- alcohol a chyffuriau (pwysau allanol, gangiau, problemau yn y cartref);
- mae cynllun y safle'n wael / mae'r amgylchedd dysgu o safon isel (yn rhy boeth, gormod o bobl, goleuo gwael, awyru annigonol).

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gasglu gwybodaeth am beryglon a risgiau yn eich gweithle:

- gofynnwch i'ch cyflogeion a'ch cynrychiolwyr undebau llafur am eu profiadau gyda'r disgybl a'r hyn y maent yn eu hystyried yn beryglon tebygol ac yn ffactorau risg tebygol;
- darllenwch yr wybodaeth sydd ar gael ar wefan HSE, gan gynnwys y pecyn cymorth *'Risk assessment for work-related violence'* – ewch i https://www.hse.gov.uk/violence/ toolkit/riskassessment.htm;
- edrychwch yn ôl ar eich cofnodion damweiniau/digwyddiadau a salwch i ganfod achosion blaenorol o drais neu ymosodedd, patrymau ymddygiad a throseddwyr blaenorol.

**Asesiadau risg unigol pan fydd unigolion yn achosi risg o drais ac ymosodedd**

Os yw'r disgybl wedi bod yn ymosodol neu'n dreisgar yn y gorffennol ac/neu mae'n derbyn cymorth gyda'i ymddygiad, dylid cwblhau'r asesiad risg, a'i adolygu'n rheolaidd, yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Dylai'r asesiad ystyried:

- cyflwr meddyliol, emosiynol a chorfforol y disgybl;
- effaith cyflyrau meddygol neu ddiodydd ynni, cyffuriau, alcohol neu feddyginiaethau;
- ei lefelau o straen;
- a oes ganddo/ganddi hanes o ymddygiad herfeiddiol, treisgar neu ymosodol;

- y tebygolrwydd y bydd yn peri niwed iddo/iddi ei hun neu i eraill; ac
- a yw'n yn ystyried pobl eraill yn fygythiad.

Dylid rhoi gwybod i bob aelod o staff sy'n debygol o orfod wynebu unigolion a allai fod yn dreisgar am y sefyllfaoedd a allai sbarduno'r ymddygiad hwn a'r mesurau atal a nodwyd yn yr asesiad a'r cynllun gofal. Mae angen bod yn arbennig o ofalus yn y sefyllfaoedd hyn:

- pan fydd y staff yn cynnwys aelodau newydd o staff neu staff a ddarparwyd gan asiantaethau;
- pan dderbynnir disgyblion newydd, yn enwedig y rheiny sydd â hanes o ymddygiad herfeiddiol; a
- phan gafwyd newid yng nghyflwr meddyliol neu gorfforol y disgybl, ei hwyliau, meddyginiaeth ac ymddygiad.

### Cam 2: Penderfynu pwy allai gael ei niweidio ac ym mha ffordd

Ystyriwch ymhle a phryd y mae trais yn fwy tebygol o ddigwydd yn eich ysgol/coleg a phwy sydd dan risg. Mae mynedfeydd yn fannau arbennig o ddrwg yn aml iawn ar gyfer achosion o drais ac mae digwyddiadau sy'n agored i'r rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cyflwyno peryglon a risgiau penodol sydd angen cael eu hystyried.

Dylech ofyn i staff a'u cynrychiolwyr undeb ynglŷn â pha fathau o drais ac ymddygiad ymosodol y maent wedi'u dioddef a'r sefyllfaoedd lle maent yn teimlo dan fygythiad, yn ogystal â'r sefyllfaoedd a allai achosi risg, hyd yn oed os nad ydynt yn achosi pryder i staff ar y pryd. Gallai hyn gynnwys:

1. cam-drin llafar a chamdriniaeth staff ar y cyfryngau cymdeithasol;
2. ymddygiadau rhywiol a chamdriniol amhriodol (megis dweud rhywbeth anllad, tynnu llun neu fideo o dan sgert neu flows);
3. ymddygiad ymosodol neu fygythiol, brawychu a bygwth trais;
4. ymosodiadau corfforol, gan gynnwys defnyddio arfau; a
5. gwahaniaethu ac aflonyddu (ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth).

Mae angen i chi bennu pa grwpiau o bobl yn eich ysgol/coleg allai gael eu niweidio gan ymosodiadau corfforol, bygythiadau, brawychu neu gam-drin llafar. Ystyriwch yr holl unigolion sydd gennych yn eich gweithle unrhyw bryd. Bydd hyn yn cynnwys athrawon a staff cymorth a gallai gynnwys pobl

sydd heb shifftiau neu batrymau gwaith rheolaidd – er enghraifft, staff cynnal a chadw, glanhawyr, staff arlwyo, goruchwylwyr amser cinio, staff diogelwch a chontractwyr eraill. Mae'n rhaid i chi hefyd ystyried disgyblion, gwesteion ac aelodau'r cyhoedd.

Gallai rhai pobl fod o dan fwy o risg nag eraill o brofi trais sy'n gysylltiedig â gwaith:

- Gallai **gweithwyr ifanc, hyfforddeion ac athrawon newydd gymhwyso / athrawon cychwynnol** fod o dan fwy o risg am fod ganddynt lai o brofiad/hyfforddiant mewn ymdrin ag ymddygiad gwael gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr blin, sefyllfaoedd a allai fod yn dreisgar ac aflonyddu rhywiol. Gallent hefyd gael mwy o anhawster adnabod sefyllfaoedd peryglus am nad ydynt yn ddigon profiadol.
- Gallai **gweithwyr dros dro / gweithwyr cyflenwi** fod o dan fwy o risg am eu bod wedi derbyn llai o hyfforddiant neu wybodaeth am drais sy'n gysylltiedig â gwaith na staff parhaol.
- Gall **gweithwyr shifft/nos**, igan gynnwys gweithwyr sy'n gweithio'n hwyr gyda'r nos, wynebu mwy o risg am fod mwy o ddigwyddiadau treisgar yn digwydd yn y nos. Hefyd, mae rhai dyddiau o'r wythnos neu amseroedd penodol yn fwy peryglus; er enghraifft, mae egwyliau cinio ac amser agor a chau yn amseroedd pan fo'r risg yn arbennig o uchel a phan fydd pobl sy'n dal allweddi'n gallu teimlo'n arbennig o agored i niwed.
- Gall **gweithwyr unig** sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain wynebu mwy o risg am nad oes ganddynt gefnogaeth cydweithwyr a fyddai'n gallu helpu i atal ymosodwr posibl neu roi cymorth a chefnogaeth ar unwaith os oes problem. Hefyd, os bydd digwyddiad treisgar yn codi ac mae'r gweithiwr unig wedi'i anafu, gallai gymryd mwy o amser i'r cymorth gyrraedd. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth arbennig i weithwyr unig o ran eu hyfforddi a rhoi dyfeisiau cyfathrebu personol iddynt. Gall y rhain fod yn rhan o nifer o fesurau rheoli rhesymol ymarferol i helpu i reoli'r risg. Dyma enghreifftiau: ffonau, ffonau symudol, radios, dyfeisiau rhybuddio awtomatig a larymau argyfwng. Mae cyngor am weithwyr unig ar gael gan HSE ar www.hse.gov.uk/violence/loneworkers.htm.
- Gallai **Tathrawon mewn ysgol arbennig neu amgylchedd tebyg** wynebu mwy o risg os yw hi'n fwy tebygol y byddent yn dod i gysylltiad â disgyblion sydd â hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol.

I'r grwpiau hyn o staff, efallai y bydd angen i chi ystyried mesurau rheoli ychwanegol.

## Cam 3: Asesu'r risgiau a phenderfynu ar y rhagofalon

Nod y cam yma yw ystyried sut y gallwch reoli'r risgiau o niwed gan drais sy'n gysylltiedig â gwaith. Gallai hynny olygu osgoi perygl penodol yn gyfan gwbl, gostwng y tebygolrwydd y byddwch yn cael niwed a gostwng difrifoldeb unrhyw niwed. Mae angen i chi sicrhau eich bod wedi gostwng y risgiau i lefel 'mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol'.

Y risg yw'r posibilrwydd, yn uchel neu'n isel, y gallai rhywun gael ei niweidio gan beryglon a welwyd yng ngham 1, ynghyd â syniad o ba mor ddifrifol fyddai'r niwed o bosib. Ffactor risg yw rhywbeth sy'n gallu cynyddu'r posibilrwydd y bydd y perygl yn digwydd.

Ar y cam hwn o'ch asesiad risg mae angen i chi benderfynu a oes risg sylweddol o drais yn eich gweithle, gan gynnwys trais gan ddisgybl penodol. Gallwch wneud hyn mewn nifer o ffyrdd, ond efallai mai'r ffordd hawsaf ar y cychwyn yw siarad gyda'ch staff a'ch cynrychiolwyr diogelwch am eu profiadau. Gallwch hefyd edrych ar y ffigurau absenoldeb oherwydd salwch, trosiant staff, cofnodion absenoldeb oherwydd anafiadau ac adroddiadau am ddamweiniau/digwyddiadau (yn enwedig ar gyfer achosion o drais sy'n gysylltiedig â gwaith).

Efallai bod gan eich ysgol/coleg hefyd ffactorau risg penodol sy''n gysylltiedig â risg uwch o drais:

- mae gennych weithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, staff wedi'u hynysu oddi wrth eraill, neu nifer fechan o staff;
- mae eich staff o dan bwysau. Gallai llwythi gwaith eithriadol neu brinder staff arafu perfformiad gweithwyr cyflogedig ac arwain at oedi, colli amynedd a drwgdeimlad;
- disgyblion a'u rhieni/gofalwyr sydd â hanes o drais neu sy'n debygol o fod o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- efallai bod eich ysgol/coleg mewn ardal lle mae lefel uchel o droseddu. Mae ysgolion a cholegau sydd â phrofiad blaenorol o ladrad, ymosodiadau neu fygythiadau dan fwy o risg y bydd digwyddiadau'n codi eto;
- efallai bod eich ysgol/coleg mewn man gweddol anghysbell;
- efallai ei bod hi'n hawdd i bobl gael mynediad i'ch safle neu ddianc ohono;
- mae cynllun/goleuo eich ysgol/coleg yn wael;

- nid oes gennych fesurau diogelwch (amlwg), a gallai hyn awgrymu i droseddwyr neu ymosodwyr posibl bod y risg o gael eu gweld yn isel a bod y diogelwch ar ei isaf.

Y cam nesaf yw penderfynu a oes unrhyw beth arall y gallech ei wneud. Ydych chi wedi gostwng y risgiau i lefel 'mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol'? I wneud hyn, bydd angen i chi ystyried defnyddio mesurau rhagweithiol megis:

- adolygu pa mor effeithiol yw'r mesurau rheoli presennol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y dylent;
- gofyn i'ch staff am eu syniadau hwy. Mae gan gyflogeion brofiad ymarferol a gwybodaeth am eu gweithle ac am ddisgyblion penodol. Felly, maent yn ffynhonnell dda o wybodaeth a syniadau. Bydd cynnwys eich staff yn y broses yn eu hannog i fabwysiadu a dod yn berchen ar y trefniadau a rowch ar waith. Dylech hefyd gynnwys eich cyflogeion drwy sicrhau eu bod yn:
  - cymryd rhan mewn datblygu a dyfeisio gweithdrefnau i leihau'r risg o drais;
  - cymryd rhan yn y broses o werthuso unrhyw fesurau rheoli;
  - rhannu profiadau yn y swydd i helpu cyflogeion eraill adnabod ac ymateb i drais.
- gwneud asesiad o anghenion hyfforddiant y staff i ganfod a oes angen hyfforddiant ychwanegol: er enghraifft, mewn rheoli ymddygiad a thechnegau tawelu sefyllfa, technegau datgysylltu mewn argyfwng ac ataliad corfforol ar sail tîm ar gyfer sefyllfaoedd argyfyngus;
- eich cymharu eich hun ag arferion da ar hyn o bryd, sydd wedi'u cynnwys yng nghanllaw cyflym HSE *Quick guide to control measures* – ewch i http://www.hse.gov.uk/ violence/toolkit/controlmeasures.htm;
- canfod unrhyw fesurau rheoli pellach sydd eu hangen i ostwng y risg i'r lefel isaf bosib. Gallai hyn gynnwys y canlynol:
  - sicrhau bod mesurau diogelwch safonol yn eu lle ac yn gweithio'n effeithiol. Does dim angen i'r holl fesurau fod yn ddrud er mwyn bod yn effeithiol, a gallent gynnwys:
    i. cyfyngu disgyblion ac ymwelwyr i un pwynt mynediad;
    ii. systemau mynediad dan reolaeth (megis cloeon diogelwch gyda chod ar bob drws i gyfyngu ar fynediad i'r safle ac i gadw disgyblion a'r cyhoedd allan o adrannau'r staff);
    iii. derbynfa gyda staff ynddi;

iv. bathodynnau i ymwelwyr; a

v. rhoi larymau panig neu ddyfeisiau cyfathrebu priodol eraill i staff.

- gosod offer diogelwch megis systemau teledu cylch cyfyng[2];
- adolygu sut yr ydych yn rheoli'r ffordd y mae disgyblion yn symud o amgylch eich safle ac ystyried sut y gallwch osgoi ciwiau neu dorfeydd rhag ffurfio;
- sicrhau cymarebau staff/disgybl priodol;
- sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cymorth ymddygiad priodol a mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol (megis asiantaethau allanol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth ymddygiad, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), asiantaethau cwnsela cyffuriau, swyddogion lles addysg, seicolegwyr addysg, y gwasanaethau cymdeithasol / amddiffyn plant, yr heddlu lleol – Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu / Timau Troseddau Ieuenctid a'r Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Dylid cael gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod aelodau o staff sy'n gweithio gyda disgyblion sydd â hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn cael eu hyfforddi'n gywir a'u bod yn gwybod pa ymyriadau cynnar a mesurau rheoli sy'n briodol i ddisgyblion unigol.

## Cam 4: Cofnodi eich canfyddiadau a'u gweithredu

Unwaith y byddwch wedi pennu'r mesurau rheoli a'r ymyriadau yr ydych yn eu gweithredu'n barod i gadw eich staff yn ddiogel, yn ogystal â chamau gweithredu y gallech eu cymryd i wella eu diogelwch ymhellach, mae angen i chi benderfynu sut y byddwch yn eu gweithredu nhw.

**Cofiwch, nid yw gwaith papur ar ei ben ei hun yn diogelu pobl; mae angen i chi weithredu a rhoi eich mesurau rheoli ar waith.** Mae asesiad risg yn ffordd o gyflawni canlyniad, nid yn ganlyniad ynddo''i hun.

[2] Dylech ymgynghori â staff a chynrychiolwyr eu hundebau bob amser cyn gosod systemau gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng mewn ysgolion/colegau a dylech hefyd ystyried ymgynghori â'r rhieni. Ni ddylai systemau o'r fath gael eu defnyddio fel cyfrwng i fonitro ymddygiad staff dan unrhyw amgylchiadau. Er mwyn i systemau teledu cylch cyfyng fod yn effeithiol, dylent gael eu monitro gan staff sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i ddigwyddiad, dylent allu recordio, a dylent gael eu gwasanaethu'n effeithlon (e.e. rhaid newid y cyfryngau recordio'n systematig).

Ar y cam hwn mae angen i chi:

- benodi person cyfrifol i sicrhau bod mesurau rheoli'n cael eu gweithredu;
- sicrhau bod mesurau rheoli'n realistig ac wedi'u gweithredu o fewn amseriadau penodol. Sicrhewch eich bod yn blaenoriaethu ac yn penderfynu pwy sy'n mynd i wneud beth ac erbyn pryd;
- benderfynu sut y byddwch yn hysbysu, cyfarwyddo a hyfforddi staff yn effeithiol ac yn gyson i weithredu'r mesurau rheoli; a
- chofnodi eich canfyddiadau mewn asesiad risg ysgrifenedig a rhannu hwn gyda staff priodol.

### Y gofynion cyfreithiol

Dylai'r rheiny sy'n gwneud asesiadau risg fod wedi derbyn hyfforddiant addas a digonol a bod yn gyfreithiol gymwys i wneud hynny. Os ydych yn cyflogi pump neu ragor o bobl, mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i gofnodi canfyddiadau arwyddocaol eich asesiad risg. Bydd angen i chi hefyd rannu eich canfyddiadau gyda'ch cyflogeion.

Mae HSE yn cynghori y dylai canfyddiadau'r asesiad risg fod yn addas i'r pwrpas. Ansawdd y canfyddiadau sy'n bwysig, ac nid nifer y canfyddiadau. Os byddwch yn dymuno, gallwch gyfeirio at ddogfennau eraill, megis llawlyfr iechyd a diogelwch, neu bolisïau a gweithdrefnau eich ysgol/coleg, yn hytrach na'u hysgrifennu nhw'n llawn yng nghanfyddiadau'r asesiad.

### Cam 5: Adolygu eich asesiad risg a'i ddiweddaru os oes angen

Dylid adolygu asesiadau risg yn rheolaidd a'u haddasu i roi ystyriaeth i unrhyw achosion newydd o ymddygiad treisgar neu gamdriniol. Dylai'r arweinwyr ysgol/coleg gyfathrebu'n rheolaidd gyda staff, a monitro'r cyfraddau digwyddiadau a'r mesurau rheoli i'w galluogi i feirniadu a yw mesurau rheoli'n effeithiol.

Dylai rheolwyr yr ysgol/coleg:

- roi cefnogaeth bendant i staff sy'n dioddef trais;
- ymchwilio pob achos o drais y rhoddwyd gwybod amdano;
- asesu risgiau a llunio strategaethau ar gyfer atal trais;
- lunio, mewn ymgynghoriad â'r staff, a gweithredu polisi rheoli ymddygiad a gwrth-fwlio a system ffurfiol ar gyfer adrodd a chofnodi unrhyw achos o drais;

- gadarnhau na fydd rhoi gwybod am ddigwyddiad yn adlewyrchiad o allu'r staff;
- fonitro effeithiolrwydd mesurau rheoli ac ymyriadau gan aelodau o staff; a
- rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod mwy o ferched na dynion yn dioddef trais.

Dylid adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r risg y bydd staff yn dioddef cam-drin neu ymosodiad yn y gwaith wedi cynyddu ac nad oes angen unrhyw fesurau rheoli ychwanegol. Ymhob achos lle mae disgybl newydd sydd â hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn cael lle yn yr ysgol/coleg, dylid gwneud asesiad risg o'r disgybl hwnnw.

Nid oes amserlen gyfreithiol yn rheoli pryd y dylech adolygu eich asesiad risg. Fodd bynnag, mae HSE yn cynghori y dylid ei drin fel dogfen weithio a ddylai gael ei diweddaru wrth i amgylchiadau newid. Fel canllaw, argymhellir bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Monitro ac adolygu**

- Gwiriwch fod eich mesurau rheoli'n gweithio.
- Adolygwch eich asesiad rhag ofn bod y sefyllfa wedi newid, a chofnodwch y canfyddiadau arwyddocaol ochr yn ochr â'ch dogfennau asesu risg.
- Rhowch wybod i'r staff am unrhyw newidiadau.

Gan y cyflogwyr mae'r cyfrifoldeb pennaf am iechyd a diogelwch. Mae'r penaethiaid ysgolion, colegau a chanolfannau'n gyfrifol fel arfer am wneud swyddogaethau iechyd a diogelwch y cyflogwyr o ddydd i ddydd a dylent ddod i gytundeb gyda chynrychiolwyr iechyd a diogelwch NASUWT ynglŷn â gweithdrefnau asesu risg sy'n hawdd eu defnyddio.

Mae NASUWT yn argymell y dylid defnyddio'r pro fforma **Ffurflen asesiad risg i'w chwblhau gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth a lles disgyblion,** sydd wedi'i chynnwys yn y canllaw hwn, mewn ysgolion a cholegau. Mae'r rhain wedi'u llunio i leihau'r baich biwrocrataidd a'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud asesiadau risg.

Dylai dulliau systematig o ymdrin â phroblemau gynnwys:

- dadansoddi'r **broblem**;
- casglu **gwybodaeth**;
- llunio **cynllun** gweithredu.

## Polisi Diogelwch

Mae'n ofyniad cyfreithiol sylfaenol i gyflogwr gael polisi iechyd a diogelwch. Yn y mwyafrif o ysgolion a gynhelir, bydd gan yr awdurdod lleol bolisi y gellir ei addasu i fod yn briodol ar gyfer yr ysgol benodol. Mae'n ofyniad cyfreithiol i ymgynghori â staff, neu eu cynrychiolwyr, ynghylch y polisi, yn ddelfrydol drwy bwyllgor diogelwch. Trwy wneud hynny, gall arweinwyr a rheolwyr ysgol/coleg ychwanegu gwerth sylweddol i ymarferoldeb a chredadwyedd trefniadau o'r fath ac atgyfnerthu hyder y rheiny sy'n cymryd rhan. Dylai'r polisi gychwyn gyda datganiad o fwriad lle mae'r cyflogwr yn cydnabod ei fod/ei bod yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd gwaith iach a diogel. Dylai hefyd gyfeirio at y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a chael ei adolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig.

Gall ysgolion a cholegau gynnwys adran am drais yn eu polisi diogelwch, neu gael polisi ar wahân yn atodiad iddo. Dylai hwn gynnwys ei ddatganiad o fwriad ei hun, sy'n cynnwys:

- ymrwymiad i gyflwyno mesurau i ostwng y risgiau o drais;
- datganiad o gymorth i bobl sydd wedi dioddef ymosodiad â cham-drin;
- anogaeth i ddefnyddio systemau adrodd;
- cadarnhad y bydd pob adroddiad yn cael ei ymchwilio ac y dilynir y broses gyflawn o ymdrin ag o, gan gyfeirio'r mater at yr heddlu fel y bo angen;
- cynigion o gymorth yn dilyn digwyddiadau, yn cynnwys cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol;
- ymrwymiad i roi gwybod i'r bobl a gyflawnodd y cam-drin am y camau cyfreithiol a allai gael eu cymryd yn eu herbyn. Yn ogystal, dylid cael protocol i fonitro digwyddiadau, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i oblygiadau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu.

## Polisi Rheoli Ymddygiad

Dylai'r Polisi Rheoli Ymddygiad esbonio'n glir y bydd yr ysgol/coleg yn trin yn ddifrifol iawn unrhyw ddigwyddiad ac ymddygiad treisgar, ymosodol neu gamdriniol, gan gynnwys seiberfwlio ac ymddygiad sy'n amharchu urddas y staff neu'r disgyblion, megis tynnu llun neu fideo o dan sgert. Dylai'r gweithdrefnau rheoli ymddygiad nodi'n glir y bydd yr ysgol/coleg yn gorfodi cosbau cryf ar y disgyblion hynny sy'n ymddwyn yn y ffordd yma tuag at aelodau o'r staff neu ddisgyblion eraill.

Dylid darparu hyfforddiant a datblygiad rheolaidd a phriodol i'r staff mewn rheoli ymddygiad a dylai hwn gynnwys: gweithredu polisi ymddygiad y

cyflogwr; cofnodi digwyddiadau; arweinyddiaeth ymddygiad; strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth; goruchwylio disgyblion yn ystod yr egwyl ginio; ymddygiad disgyblion ac ymweliadau addysgol; deddfwriaeth yn ymwneud â rheoli ymddygiad (megis cadw disgyblion ar ôl gwersi, gwahardd disgyblion, amddiffyn plant, atal disgyblion a chwilio disgyblion); cefnogi disgyblion; sicrhau cyfle cyfartal; atal gwahaniaethu a dulliau o hybu ymddygiad cadarnhaol.

Mae canllawiau am Reoli Ymddygiad ar gael gan NASUWT ar wefan yr Undeb ar: https://www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom/behaviour-management.html.

## Rhoi adroddiad

Dylid cofnodi unrhyw achosion o ymddygiad bygythiol neu dreisgar a rhoi gwybod amdanynt gan ddefnyddio gweithdrefn yr ysgol neu'r coleg. Dylai rheolwyr neu benaethiaid canolfannau sicrhau bod y dogfennau priodol ar gael i'r staff.

O dan reoliadau RIDDOR 2013, mae gofyn i gyflogwyr ym maes addysg gofnodi unrhyw achos o drais. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bob ysgol a choleg gael trefn adrodd, y bydd gan bennaeth yr ysgol/coleg gyfrifoldeb amdano o ddydd i ddydd. Gellir rhoi gwybod i HSE am unrhyw weithgareddau o drais i berson yn y gwaith sy'n achosi eu marwolaeth, anaf mawr neu sy'n eu hanalluogi am fwy na saith diwrnod. I gael rhagor o fanylion ynglŷn â pha ddigwyddiadau y gellir adrodd amdanynt o dan reoliadau RIDDOR, ewch i www.hse.gov.uk/riddor.

Os mai'r awdurdod lleol yw'r cyflogwr, dylai ei bwyllgor diogelwch adolygu'r adroddiadau ystadegol (heb enwi unigolion) yn rheolaidd ac archwilio ac ymateb i unrhyw batrymau o drais. Os mai bwrdd/corff llywodraethu'r ysgol neu'r coleg yw'r cyflogwr, dylai corff llywodraethu neu bwyllgor diogelwch yr ysgol/coleg ddilyn yr un broses adolygu. **Felly, mae'n bwysig bod arweinwyr ysgol/coleg a rheolwyr addysg yn cyfarwyddo ac annog staff i roi gwybod am unrhyw achos o drais neu gam-drin, gan ddefnyddio'r gweithdrefnau sefydledig.**

Hefyd, rhaid i'r ysgol/coleg roi adroddiad am unrhyw achos o drais troseddol i'r heddlu.

## Rhagor o Wybodaeth

Mae gan NASUWT ystod eang o wybodaeth a deunyddiau sy'n ymwneud â materion rheoli ymddygiad, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi.

I gael manylion am gyhoeddiadau a chyrsiau NASUWT eraill sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad, ewch i wefan yr Undeb ar www.nasuwt.org.uk.

**NASUWT Cymru**

Clos Greenwood
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

**Ymddygiad Disgyblion**

Mae'r adran 'Ymddygiad a phresenoldeb' ar wefan Dysgu Cymru'n cynnwys canllawiau defnyddiol i ysgolion yng Nghymru – ewch i https://learning.gov.wales/resources/improvementareas/behaviourandattendance/?lang=cy.

**Asesu Risgiau**

Mae gwefan HSE ar www.hse.gov.uk yn cynnwys canllawiau am asesu risgiau o drais sy'n gysylltiedig â gwaith.

**Ffurflen asesiad risg i'w chwblhau gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddisgyblaeth a lles disgyblion**

<table>
<tr><td>Enw'r disgybl:</td><td>Grŵp blwyddyn:</td><td>Enwau'r athrawon:<br>Enwau'r aelodau o staff cymorth:</td><td>Dyddiad yr asesiad:</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cam 1: Canfod y peryglon</td></tr>
<tr><td>A oes hanes o ymddygiad treisgar neu gamdriniol?</td><td colspan="3">Rhowch restr o ddigwyddiadau blaenorol.</td></tr>
<tr><td>Disgrifiwch y peryglon rhagweladwy a'r ffactorau risg rhagweladwy.</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cam 2: Penderfynu pwy allai gael ei niweidio ac ym mha ffordd</td></tr>
<tr><td>Os bydd y risg yn codi, pwy sy'n debygol o gael anaf neu ddolur?</td><td colspan="3">Rhowch restr o unigolion sydd dan risg.</td></tr>
<tr><td>Pa fath o anafiadau neu niwed sy'n debygol o ddigwydd?</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Pa mor debygol yw hi y bydd y risg yn codi?</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Pa mor ddifrifol yw'r effeithiau niweidiol posib?</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cam 3: Asesu'r risgiau a phenderfynu ar y rhagofalon</td></tr>
<tr><td>Beth yw'r ymyriadau rhagweithiol / mesurau rheoli rhagweithiol i atal risgiau?</td><td colspan="3"></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| Beth yw'r ymyriadau cynnar / mesurau rheoli i reoli risgiau? | | |
| Beth yw'r ymyriadau adweithiol / mesurau rheoli adweithiol i ymateb i effeithiau niweidiol? | | |
| **Cam 4: Cofnodi eich canfyddiadau a'u gweithredu** | | |
| Mesurau wedi'u gweithredu | | Dyddiad yr asesiad: |
| Beth yw'r ymyriadau rhagweithiol / mesurau rheoli rhagweithiol i atal risgiau? | | |
| Beth yw'r ymyriadau cynnar / mesurau rheoli i reoli risgiau? | | |
| Beth yw'r ymyriadau adweithiol / mesurau rheoli adweithiol i ymateb i effeithiau niweidiol? | | |
| Mesurau heb eu gweithredu | | Y risgiau: |
| Rhowch fanylion yr ymyriadau/ mesurau rheoli heb eu gweithredu a nodwch y rhesymau: | | |
| **Cam 5: Adolygu eich asesiad risg a'i ddiweddaru os oes angen** | | |
| Adolygwyd ar: | Adolygwyd gan: | |

siaradwch
â ni

029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

19/04038 Cymru (A&Rh)